

# Nodiadau i Athrawon – Pwy flociodd y bibell?

## Sgiliau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol:

- cydgasglu a threfnu gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol
- dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau
- dehongli ystyr nad yw wedi'i ddatgan yn bendant

## Gweithgaredd 1

1. Rhannwch y disgyblion yn bum grŵp. Esboniwch eu bod yn mynd i gydweithio i ddatrys dirgelwch. Bydd gan bob grŵp destun gwahanol, ond bydd y ffeithiau i gyd yn dod at ei gilydd i wneud un stori drefnus. Eu tasg yw darllen eu testun, tynnu'r ffeithiau pwysig ohono, ac yna gyflwyno adroddiad am eu rhan nhw o'r stori wrth grŵp enfys. Mae'r grŵp enfys yn cynnwys un aelod o bob un o'r grwpiau gwreiddiol, felly bydd pob aelod o'r grŵp enfys wedi darllen testun gwahanol. Pwysleisiwch mai rhannau gwahanol o'r un stori sydd gan bob un ohonynt.
2. Rhowch y testunau i'r disgyblion (testun gwahanol i bob grŵp). Gallwch roi'r cwestiynau y bydd angen iddynt eu hateb am y testun gyda'r testun i'r disgyblion llai galluog, neu gallwch wneud hyn os mai dyma'r tro cyntaf i chi roi cynnig ar weithgaredd fel hyn gyda'r grŵp.
3. Rhowch ddeng munud i'r disgyblion ddarllen eu testun yn eu grwpiau (ac ateb y cwestiynau fel grŵp). Gallwch annog y grŵp i drafod – pa wybodaeth sy'n berthnasol? Pam? Canolbwyntiwch ar y manylion. Gallant wneud nodiadau i'w helpu i gofio ond does dim angen copio'r holl beth!!
4. Rhannwch y disgyblion yn grwpiau newydd sy'n cynnwys un o grŵp pob testun. Gofynnwch iddynt ddweud wrth ei gilydd beth y gwnaethon nhw ei ddarganfod o'u testun. Gofynnwch iddynt roi'r pethau a ddigwyddodd yn nhrefn amser. Pwy a wnaeth beth, a pham?

# Nodiadau i Athrawon – Pwy flociodd y bibell?



## Gweithgaredd 2

1. Rhannwch y plant yn grwpiau gallu cymysg. Esboniwch bod rhaid iddynt gydweithio i ddatrys dirgelwch. Bydd pob grŵp yn cael pob un o'r 5 testun. Rhaid iddynt ddefnyddio pensiliau lliw i amlygu'r rhannau perthnasol o bob testun. Ar ôl gwneud hyn ar bob un o'r 5 testun, mae angen iddynt chwilio am bethau sy'n debyg rhyngddynt.
2. Yna, bydd y plant yn dechrau ystyried a dod i gasgliad gan ddefnyddio'r testunau i ganfod pwy a flociodd y bibell. Rhaid iddynt gael tystiolaeth i gadarnhau'r casgliad y dânt iddo – gorau po fwyaf o dystiolaeth!
3. Yna bydd y plant yn ysgrifennu datganiad yn dweud pwy flociodd y bibell a sut maent yn sicr o hynny!
4. Ar ddiwedd y wers, trafodwch i weld a yw pawb yn cytuno, yn enwedig yn cytuno â'r dystiolaeth!